



gwerth mewn gwahaniaeth
delivering on distinction

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017





gwerth mewn gwahaniaeth delivering on distinction

1.0 AMDANOM NI

Rydym yn gweithio gyda busnesau, cymunedau ac unigolion i ddarparu prosiectau buddiol sy'n manteisio ar gryfderau ac yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

Rydym yn dathlu ac yn cydnabod gwerth ein hadnoddau, ac yn ceisio ychwanegu gwerth er budd y gymuned. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig, ein treftadaeth ddiwylliannol, ein sectorau amaethyddiaeth a bwyd ac, yn bwysicaf oll, ein pobl.

1.1 Beth ydym yn ei wneud?

Rydym yn gweithio gyda bob lefel o'r llywodraeth, sefydliadau'r trydydd sector a busnesau preifat mewn amrywiaeth eang o sectorau. Mae hyn yn cynnwys:

- Cydweithio â chymunedau o ddiddordeb a datblygu rhaglenni sy'n ymateb i'w hanghenion a'u huchelgeisiau
- Darparu cefnogaeth ar ran sefydliadau eraill i fusnesau, y trydydd sector, grwpiau cymunedol ac unigolion
- Gweithredu fel cyfrwng sy'n darparu atebion arloesol ar ran llywodraeth leol a chenedlaethol
- Rhedeg a gweithredu portffolio adeiladau llewyrchus sy'n cynnwys asedau a oedd yn flaenorol yn ddiangen, yn adfeilion neu'n cael eu tanddefnyddio.

1.2 Beth sy'n bwysig i ni?

- Rydym yn sicrhau bod yr holl gefnogaeth a ddarparwn yn berthnasol ac yn hygyrch i'r gynulleidfa dan sylw
- Fel cwmni dielw a menter gymdeithasol, ein blaenoriaeth yw sicrhau'r budd gorau posib i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu
- Rydym wedi datblygu cysylltiadau gyda phartneriaid, cyllidwyr a chymunedau ers inni sefydlu ym 1995. Mae hyn wedi bod yn rhan bwysig o'n llwyddiant ac rydym yn ymroi i weithio mewn partneriaeth
- Rydym wedi denu a darparu prosiectau sydd â gwerth cyfunol o £60 miliwn ers 1995. Mae gwneud hynny'n effeithiol ac yn unol â gweithdrefnau ariannol cadarn yn flaenoriaeth.

1.3 Ble'r ydym yn gweithredu?

Rydym yn gweithredu ledled Cymru, ond mae ein portffolio prosiectau yn canolbwyntio ar Ynys Môn a Gwynedd. Mae gennym swyddfeydd yn Llangefni ac ym Mhorthmadog.

gwerth mewn gwahaniaeth delivering on distinction



...wedi'i sefydlu
mewn partneriaeth
â chymunedau ar
Ynys Môn

£70
MILIWN

O ARIAN WEDI'I DDENU
I YNYS MÔN DRWY AMRYWIOL
GEISIADAU AM ARIAN AR CYFER
YSTOD O WEITHGAREDDAU
ERS 1995

O Wiwerod Coch yn byw ar Ynys
Môn pan sefydlwyd
PROSIECT GWIWEROD COCH MÔN

...wedi cael cymorth arbenigol a chyllid grant ar draws Gogledd Cymru ers 1995
tua
5000
O FUSNESAU

200
O actau wedi perfformio
yng NGŴYL CEFNI ers ei
sefydlu yn 2000

30
↓
ERBYN HYN MAE YNA
800

1 Castell

SY'N EIDDO I FENTER MÔN ... CASTELL ABERLLEINIOG
GER LLANGOED. Rydym wedi creu llwybrau
cerdded ac wedi atgyweirio'r waliau

125 milltir
Hyd LLWYBR
ARFORDIROL
YNYS MÔN a
gafodd ei adfer fel rhan o
brosiect gwerth
£6 miliwn yn
2006

1996
Y flwyddyn y sefydlwyd MENTER MÔN
fel cwmni annibynnol dielw

37
cilomedr
sgwâr

YR ARDAL O
WELY'R MÔR A
RODDWYD AR
BRYDLES I FENTER
MÔN I DDATBLYGU
PROSIECT YNNI'R
LLANW MORLAIS

50
O GYNNYRCH
BWYD NEWYDD
WEDI'U CEFNOGI
GAN GYNNWYS
BWYD MÔR, HALEN,
CAWS, CREISION A
CHACENNAU

700
O bobl ifanc wedi bod
yn rhan o
THEATR IEUENCTID MÔN
ers 2000

2.0 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i aelodau eraill y Bwrdd am eu cefnogaeth ac am ymddiried ynof i gyflawni rôl y Cadeirydd. Mae'n anrhydedd, ond mae wedi bod yn her ceisio dysgu llawer iawn mewn amser byr, ac fe wnafe fy ngorau glas i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hyd eithaf fy ngallu. Diolch hefyd i Bryn Jones, fy rhagflaenydd, am ei ymroddiad i'r rôl ac am ei gefnogaeth barhaus. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol iawn fod angen inni recriwtio aelodau newydd, er mwyn dod â sgiliau eraill ac i adlewyrchu'r ehangu ar ein prosiectau yng Ngwynedd. Yn ogystal, hoffwn sefydlu mwy o gyswllt rhwng aelodau'r Bwrdd a'r staff, i wella dealltwriaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud.

Yn dilyn cyfnod o drawsnewid, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth, a bu'r Eisteddfod yn gatalydd ar gyfer ail-frandio'r cwmni a lansio'r logo newydd. Fe brofodd yr Eisteddfod i fod yn llwyfan dda i ni, gydag arddangosfa Morlais yn y Pafiliwn Gwyddoniaeth a stondin mewn lleoliad da a ddenodd lawer o ymwelwyr i helpu i ledaenu'r neges a llawer o datws! Gyda'r bygythiadau presennol i gyllid Ewropeaidd, mae'n bwysig fod Menter Môn yn dangos ei bod yn "fyw ac yn ffynnu", felly roedd yn braf gweld Carwyn Jones ac Alun Davies yn ymweld â'n stondin i lansio Wici Môn ac Ap Selog yn ôl eu trefn. Gan y bydd angen inni ddatblygu perthynas gryfach â Llywodraeth Cymru wrth i ffynonellau cyllid newid, bydd ymweliadau diweddar â dau arall o'n prosiectau gan Lesley Griffiths ac Eluned Morgan hefyd wedi dangos bod portffolio Menter Môn yn un eang. Roedd gofyn am lawer o waith er mwyn paratoi a chynnal gweithgareddau yn yr Eisteddfod a Sioe Môn, felly hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at y gwaith hwn.

Trefnwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda'r tîm rheoli a'r awdurdod lleol dros y misoedd diwethaf, ac mae'r cyswllt rheolaidd i'w groesawu wrth inni ymdrechu i ddod o hyd i ffyrdd o wella cyfleusterau a gwasanaethau yn y cyfnod hwn o ddirwasgiad.

Cafwyd dau neu dri o gyfarfodydd agored i staff, a chafwyd syniadau ac adborth defnyddiol ohonynt a fydd yn ffurfio rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer cam nesaf y broses o atgyfnerthu'r cwmni. Ar ôl colli staff wrth i brosiectau ddod i ben rhyw ddwy flynedd yn ôl, mae wedi bod yn braf iawn cael dechrau recriwtio wynebau newydd eto ar gyfer prosiectau newydd, ac rwy'n dymuno pob hapusrwydd a llwyddiant i bob un ohonynt yn eu swyddi newydd. Roedd hefyd yn galonogol gweld cyfarfod yn cael ei gynnal yn Neuadd y Dref ar gyfer cynrychiolwyr a oedd wedi hedfan draw o Ganada, yr Almaen, yr Iseldiroedd, Iwerddon ac Unol Daleithiau America.

Mae ein sefyllfa ariannol yn fwy cadarn nag y mae wedi bod ers peth amser, ond ni fyddai hyn wedi bod yn bosib heb ymdrech ac ymroddiad parhaus ein staff. Fel cwmni, rydym yn lwcus iawn o gael aelodau staff ardderchog. Yn sicr, nhw yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr a hoffwn ddiolch iddynt am eu gwaith a'u cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r swyddogion uwch am eu cyfraniad gwerthfawr a dymunaf longyfarch Dafydd ar gael ei benodi'n Rheolwr Gyfarwyddwr. Rydym yn dymuno pob llwyddiant iddo yn y rôl wrth i'r cwmni symud ymlaen i gyfnod newydd yn dilyn cyfraniad diflino Gerallt dros y ddau ddegawd blaenorol. Mae gennym

gyfnod heriol o'n blaenau, ond rwy'n ffyddiog y gallwn lywio ein ffordd ymlaen a pharhau â'r gwaith rhagorol sydd wedi sicrhau enw da i Menter Môn hyd yma.

3.0 ADRODDIAD Y RHEOLWR GYFARWYDDWR

Ar ôl blwyddyn fel Rheolwr Gyfarwyddwr Interim, fe'm penodwyd i'r swydd ar sail barhaol ym mis Rhagfyr 2017. Hoffwn ddiolch i'r Bwrdd am ymddiried ynof ac i'r holl staff am eu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn. Yn 2018, byddaf wedi bod gyda'r cwmni ers 21 o flynyddoedd, ac mae'n anrhydedd cael arwain cwmni sy'n wastad wedi ymateb yn egniol ac yn greadigol i heriau. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Rheolwr Gyfarwyddwr blaenorol, Gerallt Llewelyn Jones, am ei waith dros gyfnod o 23 o flynyddoedd a'i waith parhaus ar brosiect Morlais.

Yn dilyn dwy flynedd heriol pan ddaeth nifer o brosiectau a chontractau mawr i ben, daeth 2017 â chyfnod o sefydlogrwydd a thwf. Yn ogystal â darparu ein rhaglenni cyfredol, megis LEADER a Menter Iaith, mae'r cwmni wedi cychwyn nifer o weithgareddau newydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd wedi mynd drwy broses ail-frandio, ac fe lansiwyd y brand newydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn ystod yr haf. Mae manylion ein prif gyflawniadau i'w cael yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Mae Menter Môn yn sefydlog o safbwynt ariannol, gyda chyllid wedi'i ddiogelu o wahanol ffynonellau tan 2022 a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gan yr UE, y Loteri, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Wrth gwrs, bydd y cwmni'n parhau â'i ymdrechion i ddenu ffynonellau cyllid newydd, ond byddwn yn gwneud hynny gan wybod bod gennym sylfaen gref i adeiladu arni.

Rwyf hefyd yn ymwybodol fod cryn dipyn o ansicrwydd o'n blaenau. Nid yw'r sefyllfa gyllido erioed wedi aros yn statig ac, yn gyson, rydym ni fel cwmni wedi gorfod ymateb yn gyflym wrth i gyfleoedd newydd godi. Er bod cyllid gan yr UE wedi bod yn bwysig i'r cwmni, nid oedd gennym hawl sicr iddo. Roedd rhaid inni gyflwyno ceisiadau manwl a phrofi ein gwerth drwy ddarparu prosiectau rhagorol. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth rydym yn ei chynnig i gymunedau gwledig yn gallu parhau y tu hwnt i Brexit.

Mae ein perthynas ag awdurdodau lleol wedi bod yn bwysig erioed, ac rydym wedi darparu prosiectau mewn partneriaeth â nhw yn gyson. Mae rhagor o doriadau'n cael eu gwneud i gyllid y sector cyhoeddus ac maent yn chwilio am fodelau newydd i ddarparu gwasanaethau yn y sectorau. Mae'n bwysig fod Menter Môn yn cael ei hystyried yn gyfrwng i gefnogi awdurdodau lleol mewn sectorau megis gwasanaethau tai, gofal cartref a hamdden. Nid yw hyn yn newydd i ni, gan ein bod wedi cymryd perchnogaeth dros nifer o asedau cyhoeddus, megis Neuadd y Dref yn Llangefni a Glanfa'r Tywysog, ac wedi creu busnesau cynaliadwy a dichonadwy.

Gydag ansicrwydd daw cyfleoedd. Yn ystod y pum mlynedd nesaf, credaf y bydd cyfleoedd yn y sectorau digidol ac ynni. Rydym eisoes yn rhan o sawl prosiect yn y maes digidol drwy LEADER, gan gynnwys gosod technoleg arloesol megis LoRa Wan a TV Whitepsace. Mae angen inni sicrhau bod Môn a Gwynedd yn arwain y ffordd yn hytrach na cheisio dal i fyny. Mae prosiect Morlais yn dangos yn glir ein diddordeb

mewn ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, ni ddylem gyfyngu ein huchelgais i hynny. Yn ogystal â datblygu prosiectau cynhyrchu ynni, rydym hefyd yn edrych ar brosiectau storio a rheoli galw.

Rydym wedi canolbwyntio erioed ar sicrhau canlyniadau gweladwy a gwerth rhagorol am arian. Ein cryfder yw ein portffolio eang, ac rydym wedi cyfrannu at ddarparu prosiectau sy'n amrywio o amddiffyn yr iaith Gymraeg i ddenu datblygwyr ynni llanw i'n glannau. Yn fy marn i, ein cylch gwaith yw ychwanegu gwerth i'n hadnoddau a gwneud yn fawr o hynodrwydd yr ardal er budd ein cymunedau. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn rydym yn ei wneud a pham ei fod yn bwysig. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar gryfhau'r brand a sicrhau neges gyson ar draws ein holl weithgareddau.


I gloi, hoffwn ddiolch i aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n rhoi o'u hamser yn wirfoddol i fy nghefnogi i a chefnogi'r cwmni. Rwyf yn ddiolchgar hefyd i'r Cadeirydd, Dr. Wyn Morgan, am ei gefnogaeth dros y 12 mis diwethaf. Diolch.

4.0 NEWYDD AR GYFER 2017

4.1 Sicrhau £6 miliwn ar gyfer prosiect Morlais: Menter Môn yw lesddeiliad Parth Arddangos Gorllewin Ynys Môn ar ran Ystad y Goron. Ein hamcan yw denu datblygwyr ynni llanw i Ynys Môn drwy ddarparu cysylltiad grid a chaniatâd. Ein cymhelliant wrth ymgymryd â'r prosiect yw sicrhau'r budd economaidd a chymunedol gorau posib i'r ardal leol a chynhyrchu incwm o waith prosiect Menter Môn ar yr ynys.

Cawsom y les gan Ystad y Goron yn ôl yn 2014 ac, o'r diwedd, mae ein prosiect ERDF gwerth £6 miliwn wedi cael ei gymeradwyo a bydd yn rhedeg tan 2021. Dyma gam cyntaf prosiect Morlais, sef Morlais A, a bydd yn cefnogi'r elfen caniatâd a chynllunio busnes o'r gwaith. Mae ymdrechion yn cael eu gwneud hefyd i sicrhau £30 miliwn ychwanegol ar gyfer Morlais B, a fydd yn cynnwys y seilwaith.

Rydym wedi penodi tîm Morlais, a fydd yn cael ei arwain gan Graham Morley, y Rheolwr Prosiect. Rydym hefyd wedi llwyddo i ddenu unigolion profiadol iawn i fod yn Gyfarwyddwyr Prosiect, a bydd ganddynt gyfrifoldebau pwysig o ran strategaeth a chyflawni.



4.2 Cymeradwyo prosiect Cwlwm Seiriol: Bu ein cais £1.2 miliwn i raglen Creu Eich Lle y Gronfa Loteri Fawr yn llwyddiannus. Nod y rhaglen yw helpu cymunedau i ddatblygu eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer gwella eu hamgylchedd naturiol lleol mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd prosiect Cwlwm Seiriol yn canolbwyntio ar Ward Seiriol yn ne-ddwyrain Ynys Môn; ardal sydd ag amgylchedd naturiol cyfoethog a llawn amrywiaeth. Nod y prosiect yw ailgysylltu pobl sy'n byw yn yr ardal â mannau gwyrdd eu cymuned, drwy greu cyfleoedd iddynt gymryd rhan yn y gwaith o wella a rheoli'r cynefinoedd naturiol yn eu cymunedau. Elfen bwysig arall o'r prosiect fydd cydweithio â'r ganolfan iechyd leol, er mwyn tynnu sylw at y manteision iechyd sy'n gysylltiedig â gwaith cadwraeth.

Penodwyd Delyth Philipps yn gydlynnydd y prosiect ym mis Medi ac mae wedi bod yn brysur dros y chwe mis diwethaf yn creu cysylltiadau â'r gymuned leol ac yn sefydlu rhwydwaith i gefnogi gwaith Cwlwm Seiriol.



4.3 Brandio'r Cwmni: Mae'n bwysig fod rhanddeiliaid, partneriaid a'r cyhoedd yn gwybod pwy yw Menter Môn a beth mae'n ei wneud. Gyda chynifer o brosiectau ar waith mewn sawl sector, mae cynnal neges gyson wedi bod yn her. Yn y gorffennol, nid ydym wedi manteisio ddigon ar y cyfle i adeiladu ar ein henw da o ganlyniad i brosiectau llwyddiannus, gan nad yw'r cysylltiad â Menter Môn wedi bod yn glir. Gyda hyn mewn golwg, penderfynwyd mynd ati i ail-frandio, fel bod y cwmni'n gallu creu cysylltiad cryfach rhwng y gwahanol weithgareddau.

Mae'r nico'n dal i fod ar y logo newydd, ond mae'n llawer mwy addas ar gyfer yr oes ddigidol a'r cyfryngau cymdeithasol yn benodol. Mae hefyd yn caniatáu inni wneud cysylltiad gweledol rhwng y gwahanol weithgareddau. Cafodd y brand newydd ei lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn. Mae'r wefan newydd bron wedi'i chwblhau a byddwn yn paratoi neges ynghylch hyn yn fuan yn 2018.




5.0 DARPARIAETH BARHAUS

- 5.1 LEADER Ynys Môn a Gwynedd:** Mae LEADER yn parhau i fod yn rhaglen bwysig ar gyfer Menter Môn ac mae'n galluogi'r cwmni i ddarparu amrywiaeth o brosiectau arloesol mewn sawl sector. Mae'r rhaglen wedi bod ar waith yn y ddwy sir ers 2015 a bydd yn parhau tan 2022. Mae'r rhaglenni'n cael eu gweithredu o Langefni a Phorthmadog ac mae eu gwerth yn £3.2 miliwn a £5.5 miliwn yn y drefn honno. Rydym wedi denu arian cyfatebol gan Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a Chyngor Gwynedd.
- 5.2** Mae prosiect LEADER yn treialu atebion newydd i'r heriau sy'n wynebu'r economi wledig o dan 5 thema, sef ynni adnewyddadwy, technoleg ddigidol, ychwanegu gwerth i adnodau, rhoi gwasanaethau allan ar gontract a chadwyni cyflenwi.

Dyma rai enghreifftiau o raglenni a gefnogwyd gan y rhaglen yn 2017:

- **Rhodd Eryri** – cynllun a oedd yn caniatáu i ymwelwyr roi cyfraniad gwirfoddol tuag ta gost cynnal llwybrau troed yn y Parc Cenedlaethol. Yn 2017, fe gymerodd 60 o fusnesau ran ac fe lwyddodd i godi dros £10,000.



- **Awyr Dywyll** – prosiect sy'n helpu'r sector busnes i wneud yn fawr o werth economaidd 'awyr dywyll' yr ardal gyda phecynnau seryddiaeth. Rhwng y ddwy sir, cymerodd dros 40 o fusnesau ran yn y prosiect a chynhaliwyd sawl digwyddiad llwyddiannus.



- **Byw a Bod** – Prosiect sy'n tynnu sylw at gyfleoedd gyrfa i bobl ifanc yn yr ardal leol. Fe gafodd deg o fyfyrwyr o'r ddwy sir eu cyflogi mewn busnesau lleol yn y sector digidol a thechnoleg, sy'n mynd o nerth i nerth. Gwnaethant rannu eu profiadau a dangos nad oes angen gadael yr ardal i lwyddo.



5.3 Menter Iaith Môn: Mae'r tîm Menter Iaith yn parhau i ddarparu a chefnogi amrywiaeth o weithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg ar Ynys Môn. Maent bellach yn dîm o saith ac maent wedi llwyddo i ddenu arian o sawl ffynhonnell, gan gynnwys Horizon, Plant mewn Angen, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a'r Loteri. Rhai o uchafbwyntiau 2017 oedd:

- **Amrant** – Fe gafodd Theatr Ieuenctid Môn yr her o gyflwyno iaith a diwylliant Cymru trwy berfformiad mewn trefi yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cawsant eu mentora gan rai o bobl ifanc mwyaf dawnus yr ynys a chafwyd perfformiadau egniol a chreadigol ganddynt.



- **Croeso Cymraeg** – Gyda holl lygaid Cymru ar Ynys Môn wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld eleni, aeth tîm Menter Iaith ati i sicrhau bod ymwelwyr yn cael croeso Cymraeg cynnes iawn. Fe gydweithiodd y tîm yn agos â bwytai ar yr ynys i sicrhau bod yr iaith yn rhan o brofiad y cwsmer, p'un a oeddent yn siarad yr iaith ai peidio.



- **Wicimôn** – Prosiect sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar safle Wikipedia. Mae un person yn gweithio ar sail amser llawn ar y prosiect. Mae'n gweithio gydag ysgolion uwchradd i ddatblygu'r capasiti lleol er mwyn ychwanegu cynnwys i'r safle. Deunydd gwyddonol sydd â chysylltiad ag Ynys Môn yw'r cynnwys yn bennaf.



- **Gŵyl Cefni** – Mae'r digwyddiad ar ei 16eg flwyddyn ac mae wedi hen sefydlu ei hun yng nghanol tref Llangefni. Erbyn hyn, mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal dros wythnos ac mae'n cynnwys cwisiau, nosweithiau comedi, dramâu a gŵyl gerdd.



- 5.4 Dyfodol i Ddodrefn:** Mae Menter Môn yn rhedeg canolfan ailgylchu dodrefn yn Llangefni sy'n casglu ac yn adnewyddu dodrefn dieisiau, ac yna'n eu gwerthu i deuluoedd sydd ar incwm isel. Yn ogystal â darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r gymuned, mae'n lleihau'r nifer o ddodrefn a fyddai fel arall wedi cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi. Yn 2017, fe gafodd bron i 90 tonnelli o ddodrefn ei ailgylchu fel rhan o'r prosiect, ac mae'r ffigwr hwn yn 350 tonnelli ers 2014. Mae hynny'n dipyn go lew o soffas!
- 5.5 Annog:** Mae ein cangen fasnachol yn parhau i gynnig ystod o wasanaethau. Ymhlith y contractau a ddarparwyd yn 2017 yr oedd prosiectau cyflogaeth ar ran WCVA, gwasanaethau awyr agored ar ran Cynefin a chontractau Band-eang ar gyfer Busnes ar ran Cyngor Gwynedd a Busnes Cymru.

6.0 Partneriaid a Chyllidwyr

Rydym yn parhau i gael cefnogaeth gan bartneriaid a chyllidwyr. Hoffem gydnabod y canlynol yn arbennig (er bod llawer mwy):



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



7.0 Cyfarwyddwyr

Y Cyfarwyddwyr a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ac hyd at ddyddiad llofnodi'r adroddiad oedd:

- Gerallt Llewelyn Jones
- Bryn Jones
- Dr G Wyn Morgan
- Dr Griffith W Jones
- Dr John Idris Jones
- Rebecca Colley-Jones
- O. Dafydd Gruffydd

Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr:

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blyneddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r rheoliadau perthnasol.

Mae cyfraith cwmniâu'n gosod gofyniad ar gyfarwyddwyr i baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi datganiadau ariannol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig a'r Gyfraith Berthnasol). Mae'n rhaid i'r datganiadau ariannol roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni a'r grŵp, ac elw a cholled y cwmni a'r grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol fod y cyfarwyddwyr yn:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna'n eu gweithredu'n gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog;
- Paratoi'r datganiadau ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd y cwmni'n parhau mewn busnes.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n dangos, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni a'r grŵp, ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni a'r grŵp ac, felly, am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

6.2 Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae pob un o gyfarwyddwyr y cwmni a oedd yn gwasanaethu ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynnyddol hwn yn cadarnhau'r canlynol:

- Cyn belled ag y maent yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol (gwybodaeth y mae ar archwilwyr y grŵp ei hangen er mwyn paratoi eu hadroddiad) nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac
- Eu bod wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd fel cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i ac i sicrhau bod archwilwyr y grŵp yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Trwy orchymyn y Bwrdd

Owain Dafydd Gruffydd
Rheolwr Gyfarwyddwr

20 IONAWR 2018

Swyddfa Gofrestredig:

Neuadd y Dref
Sgwâr Bulkeley
Llangefni



gwerth mewn gwahaniaeth
delivering on distinction